

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ward 10, Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg

Dyddiad y gweithgarwch: 24 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 23 Rhagfyr 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd dilynol o bell o Ward 10, Ysbyty Llwynhelyg ar 30 Medi 2020. Diben gwneud hyn oedd cadarnhau'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion yn y cynllun gwella a luniwyd yn dilyn yr arolygiad gwreiddiol ar 20 ac 21 Tachwedd 2018.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Gwnaethom siarad â dau uwch-reolwr nyrsio a chwaer ward fel rhan o'r alwad fideo ddilynol, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am eu lleoliad.

Crynodeb

Mae Ward 10 yn Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg yn darparu gwasanaethau Meddygaeth Gyffredinol, Oncoleg, Hematoleg a Gofal Lliniarol. Ar hyn o bryd, mae gan y ward gyfleusterau i ofalu am 16 o gleifion ym mhob un o'r arbenigeddau.

Cafodd y ward ei hailagor ym mis Ebrill 2020 yn dilyn gwaith adnewyddu helaeth. Mae'r amgylchedd bellach yn darparu pum ystafell ensuite i'r cleifion, dwy gilfan llai â phedwar gwely, gan gynnwys cilfan â thri gwely. Mae'r cyfleusterau i'r cleifion a'u perthnasau hefyd wedi gwella, gan gynnwys ystafell ddydd a gwelyau i berthnasau aros dros nos.

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu profiad cadarnhaol, a gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a nodwyd yng nghynllun gwella'r arolygiad gwreiddiol ac wedi parhau i'w gweithredu.

Profiad y Claf

Yn ystod ein harolygiad ym mis Tachwedd 2018, gwnaethom nodi materion o ran profiad y claf mewn perthynas ag arwyddion, agweddau ar ofal ac urddas y cleifion, a'r ffordd yr oedd y cleifion yn cael cymorth i ddeall eu hawliau o ran codi pryderon am eu gofal.

Yn ystod y gwiriad ansawdd dilynol, roedd yn gadarnhaol gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno pob un o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gwella yn dilyn yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu.

Gwelliannau yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ystod yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Bydd y cleifion yn cael eu hatgoffa a'u hannog i ddefnyddio'r toiled/ystafelloedd cawod y dylent eu defnyddio
- Bydd arwyddion yn yr ysbyty yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd i'w deall i'r holl gleifion ac ymwelwyr a bod y cyhoeddiad yn y lifft yn cael ei drwsio/cywiro
- Mae'n rhaid i'r staff sicrhau eu bod yn gwneud pob ymdrech i gadw preifatrwydd a chyfrinachedd y cleifion wrth drafod eu gofal ymhlith aelodau o'r tîm
- Dylid cyfathrebu â staff y ward er mwyn canfod pam nad ydynt bob amser yn gallu ateb yr holl alwadau ar eu hamser yn y gwaith, ac effaith hyn ar ofal
- Rhaid sicrhau bod y cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn deall eu hawliau o ran codi pryderon ynghylch eu gofal.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 21 Ionawr 2019:

- Bydd arwyddion clir sy'n ystyriol o ddementia yn cael eu gosod ar bob toiled / ystafell gawod i'r cleifion
- Bydd yr arwyddion yn cael eu hadolygu a bydd y lifft yn cael ei drwsio
- Datblygu briff ar y cod llywodraethu gwybodaeth, gan gynnwys cyngor ar risgiau sy'n ymwneud â chyfrinachedd a gwybodaeth, gan dynnu sylw at ddiogelwch gwybodaeth adnabyddadwy am gleifion
- Bydd Prif Nyrsys y Ward a'r Nyrs â Chyfrifoldeb yn holi am les staff ar ddiwedd pob sifft.

-
- Bydd pob adroddiad ar ddigwyddiad sy'n ymwneud â phrinder staff yn cael ei ystyried drwy gyfarfodydd Safonau Monitro Iechyd a Gofal misol
 - Bydd taflenni a phosteri 'Gweithio i Wella' ym mhob ardal a bydd posterï gwybodaeth i gleifion, gofalwyr a theulu yn cael eu harddangos.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Wrth adolygu'r dystiolaeth ac yn ystod yr alwad ddilynol, gwnaethom nodi'r canlynol:

- Gwelsom fod arwyddion priodol wedi cael eu gosod ar y ward yn nodi'r cyfleusterau bath a chawod i ddynion a menywod yn glir
- Gwelsom fod arwyddion clir wedi cael eu gosod ger mynedfa'r ward a dywedwyd wrthym fod y cyhoeddiadau yn y lifft bellach wedi cael eu trwsio
- Gwelsom fod posterï llywodraethu gwybodaeth yn cael eu harddangos yn ardaloedd y staff ar y ward, megis wrth ymyl cyfrifiaduron. Dywedwyd wrthym y gwnaed hyn er mwyn atgoffa'r staff o'u cyfrifoldeb i gadw data'r cleifion yn ddiogel
- Gwelsom fod y ward wedi gosod 'Rhestr Wirio Mynd Adref' ar ddrws yr ystafell staff er mwyn atgoffa'r staff i fyfyrïo ar eu diwrnod cyn gadael y ward.
- Gwnaethom edrych ar nifer bach o ddigwyddiadau yn ymwneud â phrinder staff a gwelsom fod y rhain wedi cael eu huwchgyfeirio a'u cofnodi'n briodol
- Nodwyd bod Clinigau Cyswllt Teulu wedi cael eu sefydlu cyn y pandemig i gefnogi ymhellach y cyfathrebu rhwng y cleifion a thimau'r ward a pherthnasau. Roedd rheolwyr y ward yn canmol y ffordd roedd hyn wedi gweithio ac roeddent yn awyddus i weld y gwasanaeth hwn yn ailddechrau yn y dyfodol agos.
- Gwelsom fod taflenni 'Gweithio i Wella'¹ yn cael eu harddangos, yn ogystal â bwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' i ddangos y ffordd roedd y ward yn ymateb i adborth gan y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Ers yr arolygiad diwethaf, roedd yn gadarnhaol nodi bod y bwrdd iechyd wedi cymryd camau i wella'r prosesau a'r gweithdrefnau a oedd yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol, a bod y staff

¹ Gweithio i Wella yw proses GIG Cymru ar gyfer cyflwyno pryderon a chwynion am ofal yn y GIG

yn ymrwymedig i ddarparu hyn. Gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud ym mhob un o'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn flaenorol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi un maes i'w wella er mwyn i'r bwrdd iechyd hybu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion yn llwyr.

Y meysydd lle roedd angen sicrwydd uniongyrchol yn ystod yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella ar unwaith a nodwyd yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod cyfarpar/meddyginiaeth dadebru ar gael bob amser ac yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng yn ymwneud â chlaf
- Sicrhau bod y llwybr dianc rhag tân, cynllun gwagio'r ward drwy ddefnyddio'r lifft ar gyfer gwelyau a'r dull o roi gwybod i eraill ar ôl cyrraedd yr ardal hon yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau diogelwch pob aelod o'r staff, y cleifion ac ymwelwyr bob amser
- Adolygu'r defnydd o'r lifft ar gyfer gwelyau i wagio gan staff o adrannau eraill, fel ffordd drwodd drwy goridor ward 10 er mwyn cyrraedd rhannau eraill o'r ysbyty
- Sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel ac ar y tymheredd cywir.

Y camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella dyddiedig 21 Ionawr 2019:

- Cynnal gwiriadau dyddiol/wythnosol o'r cyfarpar dadebru, gan gynnwys rhaglen archwilio hapwiriadau wythnosol a misol a gaiff ei goruchwyllo gan Uwch-reolwyr Nyrsio
- Swyddog Tân a'r gwasanaeth tân lleol i adolygu'r cynllun gwagio oherwydd tân a gosod cyfleuster cerdyn llithro er mwyn cael mynediad i'r lifft gwagio
- Sicrhau mai dim ond staff awdurdodedig a all ddefnyddio'r lifft a chyfyngu ar y defnydd o'r ward fel ffordd drwodd gan staff eraill yn yr ysbyty
- Archebu thermomedrau a diwygio'r daflen lle cofnodir tymereddau'r oergell, ac yna gynnal rhaglen archwilio hapwiriadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roeddem yn falch gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno pob un o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w

gweithredu.

- Gwelsom fod y troli dadebru wedi cael ei newid a bod gwiriadau dyddiol ac wythnosol cyson wedi cael eu cynnal i gadarnhau nad oedd y cynnwys wedi dyddio a'i fod wedi'i selio. Roedd croes diogelwch² yn cael ei harddangos ar y ward i ddangos cydymffurfiaeth
- Dywedwyd wrthym fod y Cynghorydd Diogelwch Tân wedi adolygu cynllun gwagio'r ward a bod asesiad risg tân newydd wedi cael ei gwblhau
- Gwelsom fod trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith i helpu i symud y cleifion pan fo angen gwagio'r ward, gan gynnwys ymarferion gwagio a phrotocolau wedi'u diweddarau i'r staff eu dilyn os bydd tân. Gwelsom fod cyfleuster cerdyn llithro wedi cael ei osod yn ddiogel wrth ymyl y lifft a bod gwaith ychwanegol yn cael ei wneud i atgyfnerthu'r trefniadau diogelwch tân ymhellach ar gyfer opsiynau llwybrau dianc eraill.
- Cadarnhaodd y staff na all staff eraill yr ysbyty ddefnyddio'r ward fel ffordd drwodd mwyach.
- Gwelsom fod tymereddau'r oergell wedi cael eu cymryd yn gyson a rhoddwyd gwybod yn briodol i'r adran ystadau am unrhyw dymheredd y tu allan i'r ystod a bennir. Gwnaethom nodi bod y nyrs â chyfrifoldeb yn cynnal hapwiriadau ar y ward er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Y gwelliannau ychwanegol yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf

Roedd y gwelliannau yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Ymdrin â'r broblem o storio cyfarpar yn y coridorau a'r ystafelloedd cawod mewn ffordd briodol
- Adolygu'r ffordd y caiff bagiau gwastraff llawn eu storio yn y coridorau nes iddynt gael eu casglu er mwyn lleihau'r risg o faglu a chroesheintio
- Sicrhau bod y staff nyrsio yn newid safle'r cleifion yn rheolaidd ac yn archwilio croen y cleifion am arwyddion o friwiau pwyso a niwed i feinweoedd ar y ward
- Cynnal a chwblhau asesiadau a dogfennaeth yn y dogfennau gofal briwiau pwyso perthnasol yn drylwyr
- Sicrhau bod y staff nyrsio yn ailasesu ac yn diweddarau asesiadau risg a chynlluniau gofal y cleifion hynny sydd mewn perygl o gwmpo, gan gynnwys unrhyw gamau priodol a gymerwyd er mwyn helpu i atal achosion o gwmpo

²Mae croesau diogelwch yn cofnodi sawl gwaith y mae rhywbeth penodol yn digwydd, ac yn dangos hyn i'r staff a'r cleifion yn weledol

-
- Sicrhau bod gwybodaeth a sgiliau'r staff yn cael eu diweddarau, bod eu cymhwysedd yn cael ei asesu a bod rhagor o hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar reoli achosion o gwmpo
 - Nifer ac amrywiaeth o welliannau o ran glendid ac atal a rheoli heintiau
 - Sicrhau bod y staff nyrsio wedi cwblhau asesiadau risg o ran maeth ar gyfer y cleifion, ac wedi ailasesu'r cleifion fel y bo'n briodol
 - Sicrhau y caiff data adnabyddadwy a chofnodion gofal y cleifion eu cadw'n ddiogel bob amser.

Pa gamau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd

Ymrwymodd y gwasanaeth i gymryd y camau gweithredu canlynol yn ei gynllun gwella:

- Sicrhau y caiff cyfarpar nad yw'n cael ei ddefnyddio ei waredu ac adolygu'r ardal storio gwastraff a'r cyfleusterau drwy ddefnyddio archwiliadau glanhau C4C³
- Bydd sesiynau hyfforddi gofal mannau pwysu yn parhau'n fisol nes bod pob aelod o'r staff nyrsio wedi cael hyfforddiant, gan gynnwys hapwiriadau gan reolwyr y ward
- Archwilio dogfennaeth bob deufis, gan drafod y themâu yn y cyfarfod craffu ar safonau iechyd a gofal misol
- Sefydlu rhaglenni gwella ansawdd y disgwylir iddynt arwain at leihad parhaus yn nifer yr achosion o gleifion mewnol yn cwmpo, gan gynnwys rhaglen hyfforddi ynghylch asesu a rheoli risgiau o gwmpo.
- Caiff hyfforddiant pellach ynghylch atal achosion o gwmpo e.e. cofnodi pwysedd gwaed y claf yn gorwedd ac yn sefyll, ei fonitro yn ystod y cyfarfod craffu ar safonau iechyd a gofal misol / grŵp llywodraethu'r ward.
- Camau allweddol mewn ymateb i'r gwelliannau o ran glendid ac atal a rheoli heintiau:
 - Trefnir bod pob aelod o'r staff nyrsio yn ymgymryd â hyfforddiant gloywi ar atal a rheoli heintiau
 - Caiff archwiliad misol o amserlenni glanhau ei roi ar waith
 - Bydd hapwiriadau wythnosol yn cael eu cynnal gan reolwyr safle clinigol er mwyn monitro cydymffurfiaeth

³ System 'Credits for Cleaning' sy'n orfodol fel rhan o safonau glendid cenedlaethol

-
- Caiff hapwiriadau o'r sinciau golchi dwylo clinigol eu cynnal gan y tîm atal heintiau
 - Pwysleisio'r defnydd o dâp Clinell i ddangos y dyddiad y cafodd y cyfarpar ei ddihalogi a llofnodion y staff.
 - Caiff archwiliad cydymffurfio o drefniadau sgrinio ac asesu maeth misol eu cynnal
 - Bydd y timau Deietegol yn cael hyfforddiant gloywi cyffredinol ar ddefnyddio'r adnodd asesu risg maeth
 - Bydd pob ardal yn cael allweddi i droliau storio nodiadau cloadwy
 - Bydd y Pennaeth Nyrsio yn gofyn i oruchwylwyr a rheolwyr sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â'u he-ddysgu gorfodol ar Lywodraethu Gwybodaeth a rhoi tystiolaeth o hyn.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roeddem yn falch gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu, mewn perthynas â darparu gofal diogel ac effeithiol.

- Gwelsom fod biniau storio gwastraff priodol yn cael eu storio mewn ardal ddynodedig oddi ar y brif ward. Gwnaethom edrych ar sampl o archwiliadau glanhau a gwelsom fod y rhain wedi cael sgôr gadarnhaol ym mhob maes
 - Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gleifion ar y ward wedi dioddef niwed pwyso a gafwyd yn yr ysbyty ers wyth mis, ac y byddai unrhyw achosion yn cael eu hadolygu yn ystod cyfarfodydd craffu misol, lle mae rheolwr y ward ac uwch-reolwr nyrsio yn bresennol, a chaiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu â'r tîm ehangach
 - Gwelsom fod adnodd asesu risg niwed pwyso newydd wedi cael ei roi ar waith, a oedd wedi'i gefnogi gan gynllun gofal atal a rheoli briwiau pwyso Cymru gyfan a ddiweddarwyd yn ddiweddar. Gwnaethom edrych ar archwiliad enghreifftiol a oedd yn dangos cydymffurfiaeth wych o ran cwblhau asesiadau risg ar gyfer pob claf.
 - Dywedwyd wrthym y gwelwyd lleihad yn nifer yr achosion o gleifion yn cwmpo ar y ward, ac roedd pob digwyddiad yn cael ei adolygu yn ystod y cyfarfodydd craffu misol er mwyn nodi unrhyw themâu. Roedd croesau diogelwch hefyd yn cael eu defnyddio.
-

-
- Dywedwyd wrthym fod gan y ward nyrs gyswllt⁴ sy'n cynnal archwiliadau pwysedd gwaed cleifion yn gorwedd ac yn sefyll, a bod pwysedd gwaed cleifion yn gorwedd ac yn sefyll bellach yn cael eu cofnodi ar daflenni trosglwyddo rhwng sifftiau mewn ymdrech i leihau achosion o gleifion yn cwmpo. Fodd bynnag, gwnaethom nodi tystiolaeth o archwiliadau a oedd yn dangos nad oedd pwysedd gwaed y cleifion wedi cael ei gofnodi'n gyson bob amser.
 - Mewn ymateb i'r gwelliannau o ran glendid ac atal a rheoli heintiau:
 - Gwelsom lefel uchel o gydymffurfiaeth o ran hyfforddiant gorfodol staff y ward ar gyfer atal a rheoli heintiau
 - Gwelsom fod rhestrau gwirio glanhau wedi cael eu rhoi ar waith ar gyfer sifftiau dydd a nos
 - Dywedwyd wrthym fod archwiliadau hylendid dwylo yn cael eu cwblhau bob mis a bod cydymffurfiaeth ag arferion noeth o dan y penelin yn cael ei hadolygu gan reolwyr y ward. Dywedwyd wrthym y rhoddwyd gwybod i'r rheolwr llinell perthnasol am unrhyw arferion gwael
 - Gwelsom enghreifftiau o archwiliadau misol eraill yn cael eu cynnal gan y nyrs gyswllt atal a rheoli heintiau, megis archwiliadau canwla perifferol, i gefnogi diogelwch y cleifion ymhellach.
 - Gwelsom fod adnodd sgrinio maeth Cymru gyfan newydd⁵ wedi cael ei roi ar waith ac roedd yn cael ei ddefnyddio.
 - Dywedwyd wrthym fod nyrs gyswllt wedi cael ei neilltuo i'r ward er mwyn cynnal archwiliadau maeth a bod hyfforddiant staff wedi cael ei roi ar waith o ganlyniad i ganfyddiadau archwiliadau mewn nifer bach o feysydd. Gwelsom fod hapwiriadau ar y ward wedi cael eu haddasu i gofnodi cydymffurfiaeth yn y maes hwn.
 - Dywedwyd wrthym fod bysellfyrddau wedi'u gosod ar bob troli nodiadau er mwyn cadw data'r cleifion yn ddiogel.
 - Gwelsom fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant llywodraethu gwybodaeth gorfodol yn uchel ar y cyfan, ond roedd y ffaith bod nifer bach o staff yn absennol oherwydd salwch hirdymor wedi effeithio ar hyn.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Dywedwyd wrthym fod nifer yr achosion o gleifion yn cwmpo ar y ward wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf, a bod nifer o ymyriadau wedi helpu i leihau'r achosion

⁴Mae nyrsys cyswllt yn gweithredu fel cyswllt rhwng eu maes clinigol eu hunain a gwasanaethau arbenigol fel arfer

⁵ Adnodd Sgrinio Risg Maeth Oedolion Cymru Gyfan (WAASP)

o gwympo. Roedd hyn cynnwys asesu risg cleifion o gwympo, gyda'r opsiwn i staff y ward gynnal arsylwadau ychwanegol yn unol ag anghenion y claf. Hefyd, roedd cilfan sy'n ystyriol o ddementia ar gael gyda gemau tynnu sylw a Gweithgareddau Therapi Hel Atgofion Rhyngweithiol⁶ (RITA).

Dywedwyd wrthym hefyd fod mentrau eraill i atal achosion o gwympo wedi cael eu treialu'n llwyddiannus ar wardiau eraill, a bod cyfarpar tebyg wedi cael ei brynu ar gyfer ward 10, ond nid oedd yn cael ei ddefnyddio eto.

Gwnaethom nodi bod y staff yn cofnodi pwysedd gwaed cleifion yn gorwedd ac yn sefyll wrth iddynt gael eu derbyn i'r ward, gyda chefnogaeth gan y nyrs gyswllt sy'n cynnal archwiliadau o'r ward yn rheolaidd.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd pwysedd gwaed cleifion yn gorwedd ac yn sefyll yn cael ei gofnodi'n gyson a bod rhai achosion o gleifion yn cwympo. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod arferion da sy'n bodoli eisoes yn y maes hwn yn cael eu cynnal a bod mentrau eraill yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith, lle y bo'n briodol, er mwyn lleihau'r risg o gleifion yn cwympo.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd yn gadarnhaol nodi bod pob rheolwr ac aelod o staff ar y ward wedi gweithio'n galed ers yr arolygiad diwethaf, ac roedd gwelliannau wedi cael eu gwneud yn yr holl feysydd i'w gwella a nodwyd yn flaenorol.

Dywedodd y staff wrthym fod yr amgylchedd ward newydd wedi helpu i wella'r amgylchedd gwaith i'r staff a'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cyfathrebu wedi gwella drwy gynnal cyfarfodydd ward a grŵp negeseua staff.

Y gwelliannau yr oedd eu hangen yn ystod yr arolygiad diwethaf

Roedd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn yr arolygiad diwethaf yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau bod y materion a nodwyd o ran cymhelliant a morâl isel ac ymddygiadau ac agweddau rhai aelodau o'r staff yn cael eu hystyried a'u datrys lle y bo'n briodol
- Eir i'r afael â sgoriau isel mynych yn yr archwiliadau gofal misol er mwyn sicrhau y caiff gwelliant ei wneud lle y bo'n briodol
- Sicrhau bod staff y ward yn gallu mynd i gyfarfodydd ward yn rheolaidd

⁶ Mae Gweithgareddau Therapi Hel Atgofion Rhyngweithiol (RITA) yn becyn meddalwedd wrth ymyl y gwely sydd wedi'i anelu at leihau achosion o gwympo

-
- Mae ymchwiliad yn cael ei gynnal i gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn y mis diwethaf a allai fod wedi niweidio'r staff neu'r cleifion
 - Mae ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r rhesymau pam bod canfyddiad ymhlith rhai aelodau o'r staff y byddai'r sefydliad yn beio neu'n cosbi'r bobl sy'n rhan o ddigwyddiadau o'r fath
 - Mae cynllun cadarn ar gyfer recriwtio ar waith er mwyn cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016
 - Mae proses gadarn o reoli gofynion staffio dros dro ar waith er mwyn cydymffurfio â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016
 - Mae proses gadarn ar waith er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cyfle i gael Adolygiad Datblygu Arfarnu Perfformiad (PADR).

Y camau gweithredu y dywedodd y gwasanaeth y byddai'n eu cymryd:

- Diwrnodau cwrdd i ffwrdd wedi'u trefnu ym mis Tachwedd 2018, gyda phob aelod o'r staff nyrsio yn bresennol, a chaiff themâu'r diwrnodau cwrdd i ffwrdd eu nodi a'u cyfleu i'r Pennaeth Nyrsio a fydd yn cymryd camau priodol
- Grŵp Llywodraethu Ward 10 wedi'i sefydlu ym mis Tachwedd 2018 a fydd yn cynnwys monitro archwiliadau gofal misol, digwyddiadau clinigol a phryderon
- Bydd y Prif Nyrsys yn trefnu cyfarfodydd ward ymhell ymlaen llaw ac yn gwahodd y tîm i gynnig eitemau i'w trafod. Bydd nodiadau ar gael i'r rhai na allant fod yn bresennol
- Bydd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu hadolygu gan brif nyrsys meysydd unigol ac uwch-reolwyr nyrsio a bydd meysydd ar gyfer dysgu yn cael eu nodi
- Bydd camau gweithredu yn cael eu cymryd i gefnogi'r broses o recriwtio nyrsys cofrestredig yn amserol er mwyn sicrhau'r lefelau staffio gofynnol yn unol â Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016
- Bydd trefniadau Mesur Aciwtedd Dyddiol ar waith a bydd lefelau aciwtedd yn cael eu hadolygu drwy'r safle cyfan a bydd staff yn cael eu hadleoli yn unol â hynny fel modd i asesu a rheoli risg
- Bydd cynllun PADR ar waith ar gyfer pob maes fel y bydd y staff yn cael rhybudd ymlaen llaw o'r arfarniad er mwyn sicrhau y caiff y rhain eu cynnal.

Yr hyn a welsom yn ystod y gwiriad dilynol

Roeddem yn falch gweld bod y bwrdd iechyd wedi cyflwyno pob un o'r gwelliannau a restrwyd yn ei gynllun gweithredu yn dilyn yr arolygiad diwethaf ac wedi parhau i'w gweithredu, mewn perthynas ag ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

-
- Gwelsom fod cyfarfodydd ward cynhwysfawr rheolaidd yn cael eu cynnal a bod cofnodion ar gael i'r staff eu gweld. Mae hyn yn rhoi cyfle i staff y ward gael adborth gan reolwyr y ward a rhoi adborth iddynt. Mae grŵp negeseua preifat hefyd wedi cael ei sefydlu er mwyn gwella'r cyfathrebu rhwng staff y ward a'r rheolwyr ymhellach.
 - Dywedwyd wrthym yr ymchwilir i ddigwyddiadau clinigol ar y pryd bellach a bod rheolwyr y ward yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rheoli mewn modd amserol, gan gynnwys cynnal adolygiad lleol a sicrhau bod yr uwch-reolwr nyrsio yn ei gymeradwyo.
 - Gwelsom fod nifer isel o swyddi nyrsio a dim swyddi gweithwyr cymorth gofal iechyd yn wag ar y ward ar adeg y gwiriad dilynol, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y lefelau staffio a'r cymysgedd o sgiliau ar y ward bellach wedi'u cydbwysu'n briodol.
 - Gwelsom fod adnodd asesu risg staffio newydd yn seiliedig ar aciwtedd cleifion wedi cael ei roi ar waith i'r staff ei ddefnyddio pan nodir bod prinder staff. Dywedwyd wrthym fod hyn yn cael ei gwblhau gan y nyrs â chyfrifoldeb fel arfer, ond nodwyd bod camau wedi cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gyfarwydd â'r adnodd fel eu bod yn hyderus i'w ddefnyddio os bydd uwch-nyrs yn absennol.
 - Gwelsom fod y defnydd o gynllun PADR yn uchel ar y ward, a bod yr holl gynlluniau nad ydynt wedi'u cwblhau wedi cael eu hamserlennu yn fuan ar ôl y gwiriad dilynol.
-

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y cynllun gwella isod.

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.